

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu
DYDDIAD:	22 Mai 2023
LLEOLIAD:	Hybrid
TEITL:	Adroddiad ar ddefnydd yr Awdurdod o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Er gwybodaeth
Y RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:	Er mwyn cyflawni ei adolygiad chwe-misol o'r modd y mae'r Awdurdod yn defnyddio'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA)

CEFNDIR:

Daethpwyd ag adroddiad i'r Pwyllgor ar [23 Tachwedd 2022](#) i gyflwyno'r Polisi RIPA diwygiedig a diweddariad yn dilyn arolygiad gan yr IPCO.

Monitro gan Aelodau:

Y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu sy'n gyfrifol am fonitro defnydd y Cyngor o Ddeddf RIPA.

Cyflwynwyd yr adroddiad diweddaraf ar weithgarwch RIPA i'r Pwyllgor hwn ar [26 Medi 2022](#).

Fel rheol, cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu bob chwe mis.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

1) Gweithgarwch RIPA

Rhwng 4 Gorffennaf 2022 a 26 Ebrill 2023 cafodd un cais am wylidwriaeth gyfeiriedig ei gyflwyno a'i gymeradwyo. Cafodd yr awdurdodiad ei gymeradwyo gan ynadon ar 13 Ionawr 2023 a daeth i ben ar 13 Ebrill 2023 (3 mis). Gwnaed adolygiad ar 11 Ebrill 2023 a ddaeth i'r casgliad na ddylai'r awdurdodiad gael ei adnewyddu.

2) Polisi RIPA

Cafodd y Polisi RIPA diwygiedig ei nodi gan y Pwyllgor hwn ar 23 Tachwedd 2022 ac ers hynny mae wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar [26 Ionawr 2023](#).

Yn ogystal â'r newidiadau a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn ar 23 Tachwedd 2022, gwnaeth y Cyngor gymeradwyo dau newid pellach i'r adran a geir yn y polisi RIPA ar y Weithdrefn ar gyflwyno cais am Awdurdodiad Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig (gweler adroddiad y Cyngor am ragor o wybodaeth). Cymeradwywyd y newidiadau ychwanegol hyn cyn cyfarfod y Cyngor a hynny gan Gadeirydd y Pwyllgor hwn.

3) Diweddariad i Staff

Ar 12^{fed} of Fai 2023 cafodd diweddariad RIPA gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol ei gyhoeddi ar Newyddion Cerinet a hynny ar gyfer holl staff y Cyngor. Roedd hwn yn hysbysu'r staff bod Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Corfforaethol y Cyngor ar Wylidwriaeth Gyfeiriedig, Ffynonellau Cuddwybodaeth Dynol a Data Cyfathrebu, ar sail Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) RHAN II, wedi cael eu diweddarau.

Roedd y diweddariad hwn hefyd yn rhoi braslun i'r staff o'r ffurflenni a'r canllawiau RIPA a oedd ar gael ar CeriNet.

Bwriedir cylchredeg negeseuon ar Cerinet bob chwe mis i sicrhau bod unrhyw staff newydd yn ymwybodol o'r angen i ystyried RIPA.

4) Newyddlen yr IPCO

Mae'r IPCO wedi cyhoeddi ei newyddlen chwarterol ar gyfer gwanwyn 2023. Mae ar gael ar wefan yr IPCO - <https://www.ipco.org.uk/publications/correspondence/> - ac fe'i hatodir i'r adroddiad hwn ar ffurf **Atodiad 1**.

**LLESIANT
CENEDLAETHAU'R
DYFODOL:**

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Naddo
Integredig? Os Naddo, nodwch
pam**

Crynodeb: Darperir yr adroddiad hwn er gwybodaeth ac nid yw'n newid polisi na strategaeth.

**Hirdymor:
Integreiddio:
Cydwethio:
Cynnwys:
Atal:**

ARGYMHELLIAD:

Bod y pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

RHESWM AM YR ARGYMHELLIAD:

I sicrhau fod y pwyllgor yn cael y diweddaraf am ddefnydd y Cyngor o RIPA a'r gwaith o weithredu'r polisiau.

Atodiadau:

Atodiad 1 – Newyddlen chwarterol yr IPCO, gwanwyn 2023.

Enw Cyswllt: Elin Prysor

Swydd: Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro)

Dyddiad yr Adroddiad: 27/04/2023

Acronymau: RIPA: Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000
SRO: Uwch-swyddog Cyfrifol
CHIS: Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol
IPCO: Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio